OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1581

# Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

Diwygio is-ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE

**Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 2.

(3) Hepgorer rheoliadau 4, 5, 6 a 7.

(4) Yn rheoliad 8 (diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015)—

(a) Ym mharagraff (3), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) yn lle is-baragraff (d), rhodder—

"(d) ei fod yn ddŵr mwynol naturiol a fwriedir ar gyfer—

(i) ei symud i Ogledd Iwerddon; neu

(ii) ei allforio i drydedd wlad.""

(b) yn lle paragraff (4)(a)(iii), rhodder—

"(iii) yn lle is-baragraff (d) rhodder—

"(d) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn trydedd wlad—

(i) pan fo'r Asiantaeth yn rhoi cydnabyddiaeth yn unol â Rhan 2 o Atodlen 1;

(ii) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol yn Lloegr a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â rheoliad 4(1)(d)(i) o Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Lloegr) 2007(**2**) a Rhan 2 o Atodlen 3 iddynt;

(iii) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol yn yr Alban a roddir gan Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban yn unol â rheoliad 4(1)(d)(i) o Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr

(**1**) O.S. 2019/1046 (Cy. 185).

(**2**) O.S. 2007/2785, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1598, 2010/433, 2011/451, 2014/1855, 2018/352, 2019/526 a 2019/1488; a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan 2019/150, 2019/775 a 2019/778.

Yfed wedi'i Botelu (Yr Alban) (Rhif 2) 2007(**3**), a Rhan 2 o Atodlen 3 iddynt;

(iv) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a roddir gan yr Asiantaeth yn unol â rheoliad 4(2)(d)(i) o Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Gogledd Iwerddon) 2015(**4**), a Rhan 2 o Atodlen 1 iddynt.";"

(c) ym mharagraff 5, yn y rheoliad newydd 4A sydd i'w fewnosod—

(i) ym mharagraff (6), yn lle "mae'r diwrnod ymadael" rhodder "mae diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(ii) ym mharagraff (12), yn lle "y diwrnod ymadael", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

(d) yn lle paragraff (7), rhodder—

"(7) Yn rheoliad 27A—

(a) ym mharagraff (b)—

(i) hepgorer "neu o Wladwriaeth AEE arall";

(ii) yn lle "Erthyglau 1 i 3 o Reoliad 115/2010" rhodder "y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch dŵr wedi'i botelu sy'n gymwys yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig";

(b) ym mharagraff (c)—

(i) yn lle "wlad nad yw'n Wladwriaeth AEE arall" rhodder "drydedd wlad";

(ii) yn lle'r geiriau o "a awdurdodwyd" i "Erthyglau 1 i 3" rhodder "sy'n cydymffurfio â gofynion Erthyglau 1 a 2"";

(e) ym mharagraff (8)(b), ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

"(ia) ar ôl "yr Asiantaeth", yn lle "neu" rhodder "ei bod yn cyfateb i ofynion y Rheoliadau hyn, neu gan"".

(**3**) O.S.A. 2007/483 a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2009/273, 2010/89, 2011/1043, 2014/312, 2015/100, 2015/363 a 2017/287.

(**4**) Rh. St. 2015 Rhif 365, a ddiwygiwyd gan Rh. St. 2017 Rhif 201; a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan Rh. St. Rhif 353.